Bwletin Awdurdod S4C
- Mai 2004

Cydymdeimlad

Mynegodd yr Aelodau dristwch mawr parthed marwolaeth Janice Rowlands, cyn-Aelod o'r Awdurdod. Fe fu Mrs Rowlands yn Aelod ffyddlon, bonheddig a hyfryd, gydag ymlyniad i'r iaith ac i ofynion gwylwyr.

Cyfarfod rhwng S4C a BBC Cymru

Adroddwyd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2004 lle'r oedd y ddau Gadeirydd, y ddau Brif Weithredwr a'r ddau Ysgrifennydd yn bresennol. Nodwyd taw'r prif faterion a drafodwyd oedd ymateb S4C i'r adolygiad ar Siarter y BBC, adolygiad Roger Laughton; strategaeth a chynlluniau Cyfarwyddwr Rhaglenni S4C; ac adolygiad darlledu cyhoeddus Ofcom.

Gwaith Cynllunio a Gweithredu strategol

Trafodwyd yr hyn oedd ar droed ar gyfer gwaith strategol gan y Tîm Rheoli, lle'r bwriad oedd i sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer nifer o feysydd gweithredu allweddol. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law ar gyfer ystyriaeth.

Adolygiad Roger Laughton

Nodwyd nad oedd y DCMS hyd yn hyn wedi gallu sefydlu dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad. Byddai swyddogion S4C yn codi hyn gyda'r DCMS gan bod hi wedi dod yn amlwg erbyn hyn bodi eisiau tynnu ar y casgliadau er mwyn symud ymlaen gyda thrafodaethau gyda'r BBC ar adolygu'r Siartr a gydag Ofcom.

Adroddiad Blynyddol 2003

Ystyriodd yr Aelodau ddrafft yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2003. Cymeradwyodd yr Awdurdod y drafft ar yr amod bod y newidiadau a gytunwyd arnynt yn cael eu hymgorffori.

Materion Eraill

Trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 14 Mai 2004
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol